**Ar Fythgofiadwy Fryn**

O! Iesu mawr, pwy ond Tydi
A allai farw drosom ni,
A'n dwyn o warth i fythol fri? –
    Pwy all anghofio hyn?
Doed myrdd ar fyrdd o bob rhyw ddawn
I gyd-fawrhau d'anfeidrol Iawn –
Y gwaith gyflawnaist un prynhawn
    Ar fythgofiadwy fryn.

Nid yw y greadigaeth faith,
Na'th holl arwyddion gwyrthiol chwaith,
Yn gytbwys â'th achubol waith –
    Yn marw i ni gael byw:
Rhyfeddod heb heneiddio mwy
Fydd hanes mawr dy farwol glwy';
Ni threiddia tragwyddoldeb drwy
    Ddyfnderau cariad Duw.

***William Ambrose, (Emrys)***